

Cynrychioliadau Sepsis Cymru Gyfan Llais

Yn anffodus, [collodd un o wirfoddolwyr Llais yng Ngwent, Corinne Cope, ei mab 9 oed Dylan](#) i sepsis ar ôl i ysbyty fethu ag asesu ac esgoli ei gyflwr yn iawn.

Yn dilyn y profiad trasig a allai'u hosgoi hwn, mae Corinne wedi ymroi i hyrwyddo ymwybyddiaeth o sepsis a sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o farwolaeth Dylan yn atal yr un peth rhag digwydd i unrhyw deulu arall.

Mae pob un o'n timau rhanbarthol wedi gwneud [cynrychioliadau](#) i'w byrddau iechyd yn ddiweddar yn gofyn am wybodaeth am:

- camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o sepsis
- hyfforddiant a ddarperir i staff i'w helpu i adnabod arwyddion sepsis
- cynlluniau'n cael eu gwneud i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS2), fel yr amlinellir yn [Amserlenni a chyfrifoldebau ar gyfer Sgorau Rhybudd Cynnar \(EWS\) \(WHC/2025/002\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol fersiwn 2 (NEWS2) yn offeryn safonol a ddefnyddir ar draws y GIG i helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i nodi cleifion sy'n dirywio neu sydd mewn perygl o salwch difrifol, gan gynnwys sepsis, yn gyflym.

Ymatebodd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru i gynrychioliadau Llais, gan amlinellu eu camau gweithredu presennol:

- Ymwybyddiaeth y Cyhoedd: Mae ymgyrchoedd yn cynnwys poster, taflenni, cyfryngau cymdeithasol, a digwyddiadau - mae rhai'n cyrraedd cannoedd o filoedd o bobl ac ar gael mewn sawl iaith.
- Hyfforddiant Staff: Mae pob Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant trwy fodiwlau ar-lein, sesiynau wyneb yn wyneb, a rhaglenni sefydlu.

- Gweithredu NEWS2: Mae fersiwn 2 o'r Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS2), offeryn i helpu staff i nodi cleifion sy'n dirywio, yn cael ei gyflwyno ledled Cymru rhwng Gorffennaf a Medi 2025. Mae offer ychwanegol ar gyfer plant, mamolaeth a babanod newydd-anedig hefyd yn cael eu cyflwyno.

Camau nesaf

Mae Llais yn parhau i ymrwymo'n ddwfn i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o farwolaeth drasig Dylan Cope yn arwain at welliannau parhaol mewn ymwybyddiaeth, cydnabyddiaeth ac ymateb i sepsis ledled Cymru. Rydym wedi ein calonogi gan y camau a gymerwyd gan Fyrddau Iechyd a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn agos.

Dros y misoedd nesaf, bydd Llais yn:

- Rhannu'r adroddiad hwn gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru.
- Ymgysylltu â Byrddau Iechyd i olrhain gweithrediad NEWS2 a rhaglenni hyfforddi cysylltiedig.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog cyfranogiad cymunedol mewn addysg sepsis.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda chyrff cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu ar draws pob rhanbarth.

Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod wedi cael eich effeithio gan sepsis ac yr hoffech gyfrannu at rannu eich stori, [cysylltwch â'ch tîm Llais lleol](#) neu cwblhewch ein harolwg cenedlaethol. [Dywedwch wrthym am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rydych chi wedi'u derbyn.](#)

Gyda'n gilydd, gallwn helpu i atal trasiedïau yn y dyfodol a gwella canlyniadau i gleifion ledled Cymru.